At: Swyddog Cyfrifol CBAC

19 Awst 2020

Annwyl Elaine

Amod Cydnabod Arbennig

Ar 17 Awst 2020, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg y dylid dyfarnu graddau asesu canolfannau i ddysgwyr yng Nghymru, a rhoddodd Gyfarwyddyd inni i'r perwyl hwnnw. Gellir gweld copi o'r Cyfarwyddyd ar ein gwefan.

Mewn ymateb i'r Cyfarwyddyd a gawsom, ac yn unol ag ef, rydym yn ei gwneud yn ofynnol i CBAC-WJEC gyhoeddi graddau asesu canolfannau i ddysgwyr yng Nghymru ar gyfer TGAU, Uwch Gyfrannol (UG), Safon Uwch a chymwysterau Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru, ac eithrio lle mae graddau a gyhoeddwyd eisoes, neu a gyfrifir, yn uwch na'u gradd asesu canolfan, neu yn achos Safon Uwch, mae eu gradd UG yn uwch na'u gradd asesu canolfan a'r gradd a gyhoeddwyd. I'r perwyl hwn rydym yn gosod amod cydnabod arbennig ar WJEC-CBAC a nodir isod.

Daw'r amod cydnabod arbennig i rym ar unwaith a bydd yn parhau mewn grym tan ddyddiad a bennir gan Gymwysterau Cymru. Mae'r amod arbennig yn gymwys i'r holl ganlyniadau a gyhoeddir gan CBAC-WJEC ar gyfer cymwysterau Safon Uwch yr haf hwn, ac sydd o fewn cwmpas ein Fframwaith Rheoleiddio Arbennig: Cymwysterau Cyffredinol - Covid-19. Amodau a Gofynion.

Yn unol ag Atodlen 3, paragraff 4 Deddf Cymwysterau Cymru 2015, mae Cymwysterau Cymru yn cyflwyno'r amod cydnabod arbennig canlynol.

SPCR3

SPCR3.1 Mewn perthynas â phob canlyniad mae CBAC-WJEC yn ei gyhoeddi, neu a gyhoeddwyd yn flaenorol, o dan Amod GQCov3.1, a lle mae gradd asesu canolfan wedi'i chyflwyno gan Ganolfan Berthnasol ar gyfer Dysgwr ar gyfer Cymhwyster GQ, rhaid iddo sicrhau bod y canlyniad yn adlewyrchu'r gradd asesu canolfan a gyflwynwyd gan y Ganolfan Berthnasol, ac eithrio dan yr amgylchiadau a ddisgrifir yn Amod Arbennig SPCR3.2, SPCR3.3 a SPCR3.4.

SPCR3.2 Mewn amgylchiadau lle -

(a) bod gradd wedi'i rhoi, neu wedi'i chyfrifo cyn ei rhoi, i Ddysgwr am Gymhwyster GQ yn unol ag Amod GQCov3.1, a

(b) mae'r radd a ddyroddwyd, neu a gyfrifwyd cyn ei rhoi, i'r Dysgwr hwnnw yn uwch na'r radd asesu canolfan a gyflwynwyd gan Ganolfan Berthnasol i'r Dysgwr hwnnw,

rhaid i CBAC-WJEC sicrhau bod y Dysgwr yn derbyn y radd a gyhoeddwyd neu a gyfrifir.

SPCR3.3 Mewn amgylchiadau lle mae gradd i'w ddyroddi yn unol ag Amod Arbennig SPCR2 yn uwch na gradd asesu'r ganolfan, rhaid i CBAC-WJEC gyhoeddi'r radd uwch yn unol â'r Amod Arbennig honno.

SPCR3.4 I'r graddau bod unrhyw anghysondeb rhwng –

(a) gofyniad a gynhwysir fel rhan o'r Amod Arbennig hwn;
(b) gofyniad unrhyw Amod Arbennig arall;
(c) gofyniad Amod GQCov;
(d) gofyniad yn yr Amodau Cydnabod Safonol;
(e) gofyniad yn yr Amodau Cydnabod Safonol Ychwanegol ar gyfer Cymwysterau TGAU / TAG, a
(f) gofyniad yn yr Amodau Cydnabod Safonol Ychwanegol ar gyfer Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru

fel na allai CBAC-WJEC gydymffurfio â'r ddau ofyniad o'r fath, rhaid i CBAC-WJEC gydymffurfio â gofyniad yr Amod Arbennig ac nid oes rheidrwydd arno i gydymffurfio â gofyniad yr Amod arall.

Cysylltwch â mi os hoffech drafod cynnwys y llythyr hwn.

Yr eiddoch yn gywir,

Philip Blaker
Prif Weithredwr